

Prentisiaethau
Apprenticeships

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU.
# DEWIS DOETH.
# PECYN GYMORTH I GYFLOGWYR

# CYNNWYS


Canllaw i Brentisiaethau 3

Deall Prentisiaethau yng Nghymru: Lefelau 4

Deall Prentisiaethau yng Nghymru: Y Gymraeg ac Anghenion Ychwanegol 5

Deall Prentisiaethau yng Nghymru: Sectorau 6

Darparwyr Prentisiaethu 7

Manteision i'ch Busnes 8

Cyllid a Chymorth 9

Sylwadau Cyflogwyr 10

Busnes Cymru a Medr 11

Camau Nesaf 12




# CANLLAW I BRENTISIAETHAU

Mae'r canllaw hwn wedi'i lunio i ddweud popeth sydd angen i chi ei wybod fel cyflogwr am raglen brentisiaethau pob oed Cymru.

Mae prentisiaethau yn ffordd hanfodol o sicrhau llwyddiant economaidd a thrwy eu cynnig, gall eich busnes elwa ar recriwtio cost-effeithiol a diogelu eich sefydliad at y dyfodol gyda ffynhonnell o dalent ffres.

Yn bwysicaf oll, mae cymorth ar gael i'ch helpu bob cam o'r ffordd ar eich taith brentisiaethau ac mae Llywodraeth Cymru a Medr wedi ymrwymo i gefnogi busnesau sy'n dymuno recriwtio a hyfforddi prentisiaid.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn recriwtio prentis, sganiwch y cod QR i lenwi'r ffurflen a bydd Ymgynghorydd Cysylltu â Chyflogwyr Busnes Cymru yn cysylltu â chi.**



# DEALL PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

## Lefelau

Mae gwahanol lefelau o brentisiaethau sy'n addas ar gyfer anghenion eich busnes.

Mae'r rhain yn amrywio o lefel sylfaen (sydd gyfwerth â 5 TGAU), Prentisiaethau (sydd gyfwerth â chymwysterau Safon Uwch), Prentisiaethau Uwch (sydd gyfwerth â gradd sylfaenol) a Phrentisiaethau Gradd (sy'n cael eu rhedeg mewn partneriaeth â phrifysgolion).

| | |
|---|---|
| | Mae Prentisiaid Sylfaen yn astudio tuag at gymwysterau cyfwerth â 5 TGAU neu NVQ Lefel 2 ac mae'r llwybr yn cynnwys elfen waith ymarferol sy'n helpu dysgwyr i ennill profiad gwerthfawr yn y gwaith. Mae llawer yn mynd ymlaen i gwblhau Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch. |
| | Mae prentisiaid yn datblygu sgiliau gwerthfawr wrth weithio, gan astudio tuag at gymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig gyfwerth â 5 TGAU (A*-C), 2 Safon Uwch neu NVQ Lefel 3. |
| | Mae prentisiaid uwch yn gweithio tuag at gymhwyster cyfwerth â HND, HNC, neu Radd Sylfaen, ac mae'r llwybr yn cynnwys elfen sylweddol o ddysgu seiliedig ar waith sy'n caniatáu i brentisiaid gymhwyso eu sgiliau mewn lleoliadau go iawn wrth ennill profiad gwerthfawr yn y diwydiant. |
| | Drwy gyfuno dysgu lefel uwch a chyflogaeth, gall cyflogwyr ddatblygu eu gweithlu a gall eu prentisiaid ennill gradd, gan ddatblygu eu gyrfa ac ennill cyflog ar yr un pryd. |

# DEALL PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

## Y Gymraeg ac Anghenion Ychwanegol

### Prentisiaethau Cymraeg a Dwyieithog

Mae modd astudio prentisiaethau yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu hyd yn oed yn ddwyieithog, yn ddibynnol ar anghenion y cyflogwr. Mae manteision busnes i gyflogwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg, a gall darparu gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

### Cyflogi prentisiaid ag anghenion ychwanegol

Mae annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl ag anghenion ychwanegol yn dda i'ch busnes. Gall eich helpu i wneud y canlynol:

- cynyddu nifer yr ymgeiswyr o ansawdd uchel sydd ar gael.
- creu gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth helaeth o gwsmeriaid y mae'n eu gwasanaethu a'r gymuned y mae ynddi.
- dod â sgiliau ychwanegol at y busnes, fel y gallu i ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL), a allai arbed llawer o arian.

Cadw costau'n isel wrth wneud addasiadau rhesymol i gyflogi prentisiaid anabl.

Trwy'r Rhaglen Brentisiaethau pob oed, gall cyflogwyr hefyd fod yn gymwys i gael £2,000 ychwanegol o gyllid i gefnogi prentisiaid ag anghenion ychwanegol.

Mae'r manteision o gadw gweithiwr profiadol, medrus sydd wedi dioddef amhariad fel arfer yn gorbwyso recriwtio a hyfforddi staff newydd. Mae manteision hefyd i'r unigolyn.

Gall y cynllun **Mynediad i Waith** ddarparu cymorth i dalu am offer arbennig, addasiadau neu wasanaethau gweithwyr cymorth i helpu pobl anabl gyda chostau cymorth yn y gweithle. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/access-to-work**

# DEALL PRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

## Sectorau

Gall cyflogwyr ym mron pob sector o economi Cymru gymryd rhan mewn prentisiaethau a phartneru â darparwr hyfforddiant a fydd yn cynnig cwrs sy'n addas ar gyfer eich anghenion busnes.

Yn draddodiadol, efallai y byddwch chi'n cysylltu prentisiaethau â sectorau fel adeiladu, peirianneg, neu swyddi ymarferol eraill yn unig, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi ehangu i ystod llawer ehangach.

Yng Nghymru, bydd prentis yn dilyn fframwaith prentisiaethau cymeradwy sydd ar gael drwy'r Llyfrgell Fframwaith Prentisiaethau.

Mae'r fframweithiau yn caniatáu cysondeb yn y mathau o gyrsiau sy'n cael eu darparu ledled y wlad. Fel cyflogwr, byddwch yn cael eich gosod mewn partneriaeth â darparwr hyfforddiant a fydd yn helpu i gyflwyno'r cwrs.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deunyddiau a Geithgynhyrchu Uwch | Amaeth a'r Amgylchedd | Cerbydau, Cludiant a Logisteg | Busnes a Rheoli |
| Arlwyo a Lletygarwch | Gofal Plant | Gwasanaethau Adeiladu | Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau |
| Technoleg Ddigidol | Addysg a Gwasanaethau Gwybodaeth | Ynni | Peirianneg |
| Bwyd a Diod | Gwallt a Harddwch | Gofal Iechyd | Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol | Gwyddorau Bywyd | Gwasanaethau Eiddo | Gwasanaethau Amddiffyn |
| Gwasanaethau Cyhoeddus | Manwerthu | Teithio, Twristiaeth a Hamdden | |

# DARPARWYR PRENTISIAETHAU

Mae Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru yn cael ei darparu gan rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant ledled Cymru.

Yn cynnwys:

- Associated Community Training Ltd
- Consortiwm B-wbl, Coleg Sir Benfro
- Cwmni Hyfforddiant Cambrian
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Educ8 Training Group Ltd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- ITEC Training Solutions Ltd
- Academi Sgiliau Cymru, Grŵp Colegau NPTC

Gallwch ddysgu mwy am y rhwydwaith o ddarparwyr a sut i gysylltu â nhw yn uniongyrchol trwy **wefan Medr**.



# MANTEISION I'CH BUSNES

Gall prentisiaethau gynnig llawer o fanteision i gyflogwyr o bob maint. Gall hyfforddi prentis eich helpu i...


- **Recriwtio a hyfforddi mewn ffordd gost-effeithiol:** gallwch chi dalu cyflog y prentis, a bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r rhan fwyaf o'r costau hyfforddi.
- **Creu cronfa o dalent:** uwchsgilio neu recriwtio prentisiaid i ddatblygu gweithlu medrus a chymwys.
- **Llenwi bylchau sgiliau:** i fodloni gofynion sy'n codi nawr ac yn y dyfodol.
- **Ehangu eich busnes:** p'un a ydych chi'n dewis recriwtio, ailhyfforddi neu ail-leoli eich gweithlu, gall prentisiaethau helpu i ehangu eich busnes.
- **Hyrwyddo cynhwysiant:** mae cyflogi prentisiaid yn eich galluogi i gynnig cyfleoedd i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan hyrwyddo cynhwysiant a dod ag amrywiaeth o safbwyntiau i'ch tîm.



# CYLLID A CHYMORTH

Mae cael y gefnogaeth gywir y tu ôl i chi yn allweddol i wneud eich taith brentisiaeth yn llwyddiant, ac mae help wrth law i bob cyflogwr.

- **Cymorth arbenigol:** Ar ôl i chi fynegi eich diddordeb, bydd Busnes Cymru yn cysylltu â chi, yn eich tywys drwy'r broses ac yn eich helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael.
- **Cymorth recriwtio:** Byddwch yn gweithio'n uniongyrchol gyda darparwr hyfforddiant, a fydd yn eich cefnogi cyn i'r broses recriwtio ddechrau hyd yn oed. Gall hyn gynnwys eich helpu i lunio'r rôl, deall pa lefel neu fframwaith sydd fwyaf priodol, a chynghori ar y sgiliau a'r hyfforddiant y bydd eich prentis yn eu derbyn. Byddant hefyd yn helpu i hysbysebu'r swydd wag ar y Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag.
- **Hyfforddiant a chyflwyno rhaglenni:** Darparwr hyfforddiant fydd yn hyfforddi'r prentisiaid a bydd yn gweithio gyda chi i lunio cynllun dysgu sy'n addas i'ch busnes. Byddant yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda chi a'r prentis.
- **Cymorth ariannol:** Chi sy'n gyfrifol am dalu cyflog y prentis tra bo'n gyflogedig gan eich sefydliad. Llywodraeth Cymru fydd yn talu costau'r hyfforddiant.



# SYLWADAU CYFLOGWYR

Cliciwch ar y delweddau i ganfod pam fod cyflogwyr Cymru yn gwneud dewis doeth i gyflogi prentis

## GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

"Wrth i ni uwchsgilio'r sefydliad, mae ein prentisiaid yn rhan annatod o uwchsgilio'r tîm."



## CHWARAEON CYMRU

"Mae'r busnes wedi elwa'n aruthrol o gyflogi prentisiaid gradd. Rydyn ni'n cael y sgiliau yn fewnol ac rydyn ni'n gallu ysgwyddo llawer mwy o brosiectau."




## GORSAF BŴER DINORWIG

"Fedra i ddim gweld unrhyw anfanteision i gyflogi prentis. Rydych chi'n datblygu pobl, yn buddsoddi mewn pobl ac yn cael y buddsoddiad hwnnw yn ôl ddeg gwaith drosodd."



# BUSNES CYMRU A MEDR

## Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol sydd wedi'i ariannu'n llawn i gefnogi pobl yng Nghymru sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn tyfu busnesau. Os ydych yn ystyried cyflogi prentis, gallwch gael mynediad at gymorth a chefnogaeth bellach gan Gynghorydd Ymgysylltu â Chyflogaeth.

Ewch i **wefan Busnes Cymru** i ddarganfod pam mae prentisiaethau yn benderfyniad gwych.

## Medr

Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), ymchwil ac arloesi, prentisiaethau, dysgu cymunedol i oedolion, a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Ar 1 Awst 2024, ysgwyddodd Medr ystod lawn o ddyletswyddau a fu gynt yn perthyn i Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac ystod o swyddogaethau gan Lywodraeth Cymru.

Ewch i **wefan Medr** i ddysgu mwy am eu gwaith.

Busnes Cymru

Business Wales

Medr

**Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**
Commission for Tertiary Education and Research

# BETH NESAF?

Bydd Busnes Cymru yn rhoi gwybodaeth i chi am bob agwedd ar ein Rhaglen Brentisiaethau.

Llenwch y **ffurflen Mynegi Diddordeb** am gymorth a chefnogaeth bellach.

I gael rhagor o wybodaeth am brentisiaethau, ewch i'r dolenni canlynol:

- **Darllenwch ganllaw cam wrth gam** am brentisiaethau yng Nghymru.
- Dysgwch ragor am reoli eich swyddi gwag drwy'r **Gwasanaeth Swyddi Gwag Prentisiaethau**.
- Dilynwch dudalennau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol drwy **Facebook** ac **X**.



Prentisiaethau
Apprenticeships